# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mawrth 2024

Amser: 13.30 - 14.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13737

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(6)464 – Rheoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 2.2 SL(6)467 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 2.3 SL(6)469 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)465 – Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) (Diwygio) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(6)456 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.2 SL(6)462 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.3 SL(6)463 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(6)460 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd mewn cysylltiad â chyfarfodydd y canlynol:

- y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, ac
- y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

### 6.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Lleol: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

### 6.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol etc.) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

### 6.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Adroddiad cryno'r pedwerydd cyfarfod

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cryno ar bedwerydd cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, a luniwyd ar ran Huw Irranca-Davies a Sam Kurtz, a oedd yn cynrychioli'r Senedd yn y cyfarfod.

### 7.2 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Craffu ar waith Gweinidogion

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 7.3 Gohebiaeth oddi wrth y Llywydd: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Llywydd.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 9 Cywiriadau i Offerynnau Statudol Cymru

Trafododd y Pwyllgor gywiriadau Llywodraeth Cymru i Offerynnau Statudol, a chytunodd i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i ofyn am ragor o wybodaeth.

## 10 Llythyr drafft at Gadeirydd Dirprwyaeth Senedd Ewrop i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Trafododd y Pwyllgor lythyr drafft at Gadeirydd Dirprwyaeth Senedd Ewrop i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, a chytunodd arno. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Gadeirydd Dirprwyaeth Senedd y DU i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE.